# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**CYP(3)-06-09 (p.2) : 31 Mawrth 2009**

**Papur tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru**

## 1. Diben

1.1 Paratowyd y papur hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar gynnydd Llywodraeth y Cynulliad wrth weithredu'r *Model ar gyfer Darparu Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru*.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Yn 2005, comisiynodd y Cynulliad waith ymchwil ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth plant ar draws iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Daeth yr adroddiad dilynol "Astudiaeth o Wasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru" i rai casgliadau pryderus am natur ddarniog darparu eiriolaeth, yr angen i ddarparu mwy o annibyniaeth i eiriolwyr ac, yn benodol, pwysleisiodd yr angen am well mynediad gyda gwell integreiddio ar draws prif feysydd gwasanaeth drwy siop un stop.

2.2 Ym mis Mawrth 2007, datblygodd a lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghoriad ar Fodel Gwasanaeth *Newydd ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc*. Cyflwynodd yr ymgynghoriad hwn fodel ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth, yn seiliedig ar yr egwyddor o gomisiynu rhanbarthol drwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Anfonwyd yr ymgynghoriad allan yn eang i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc, comisiynwyr lleol mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, darparwyr gwasanaethau eiriolaeth plant, Swyddogion Cwynion, Ymarferwyr, Swyddogion a Sefydliadau Hawliau Plant, Cynghorau Iechyd Cymuned, Cyrff Llywodraethu Ysgolion a Chomisiynydd Plant Cymru. Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad farn eang ar y ffordd orau o gyflwyno, comisiynu a gwella gwasanaethau eiriolaeth.

2.3 Ym mis Mawrth 2008 cytunodd aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i graffu ar yr adroddiad. Wrth gynnal eu hymchwiliad, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth o ystod o dystion, yn cynnwys y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, cyrff a sefydliadau cynrychioliadol ac yn uniongyrchol gan bobl ifanc. Cyhoeddodd y pwyllgor adroddiad – *Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru (Mawrth 2008)* - a nododd gyfres o argymhellion. Yna ystyriwyd yr argymhellion hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a groesawodd cyfranogiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a mabwysiadwyd y rhan fwyaf o'r argymhellion mewn dogfen a elwir yn – *Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc (Mai 2008).* Mae'r ddogfen hon yn gosod y cyfeiriad ar gyfer polisi

Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddarparu *Model ar gyfer Darparu Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.*

## 3. Trosolwg o'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

3.1 Bydd y Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth yn gwella'r dasg o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a hygyrch o safon i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn sylweddol . Bydd o fudd i nifer sylweddol o blant a phobl ifanc ac yn gam mawr ymlaen ar gyfer darparu'r ymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn drwy sicrhau ein bod yn clywed yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym ac yn gweithredu arno. Mae'n cefnogi saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, 10 Hawl i bobl ifanc 11-25 oed a'r camau gweithredu allweddol yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth.

3.2 Mae'r Model yn cefnogi nod cyffredin Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad gwreiddiol yn 2007: er mwyn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn annibynnol, yn effeithiol ac yn ennyn ymddiriedaeth a hyder plant a phobl ifanc.

3.3 Egwyddorion sylfaenol y Model yw:

- Rhaid i wasanaethau eiriolaeth fod yn fwy hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc, ond yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed
- Rhaid i ddarparwyr eiriolaeth fod yn annibynnol o sefydliadau sy'n comisiynu'r gwasanaeth
- Sicrhau y cymerir y materion a godir gan blant a phobl ifanc o ddifrif
- Sicrhau yr ymdrinnir â'r materion a godir gan blant a phobl ifanc yn gyflym ac yn effeithiol
- Dylid gweld bod eiriolaeth yn cyfrannu tuag at gyfranogiad a chael gafael ar hawliau
- Dylid hyrwyddo eiriolaeth drwy godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith plant, pobl ifanc ac oedolion
- Rhaid i broses a chanlyniadau eiriolaeth fod yn glir.
- Rhaid i wasanaethau o safon uchel fod yn gyson a theg ar draws Cymru.

3.4 Y meysydd gwaith allweddol yw:

- Sefydlu Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad o fewn Llywodraeth y Cynulliad – APADGOS.
- Sefydlu Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol (o aelodau anweithredol, gan gynnwys plant a phobl ifanc).
- Sefydlu gwasanaeth eiriolaeth a chyngor cenedlaethol a fydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc erbyn 2009/10. Comisiynir y gwasanaeth hwn gan yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad.

- Integreiddio gwasanaethau eiriolaeth arbenigol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n agored i niwed mewn amgylchiadau penodol.
- Comisiynu rhaglen hyfforddi a chymhwyster ar gyfer eiriolwyr a gydnabyddir yn genedlaethol a ategir gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

## 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd gwaith allweddol;

4.1 Mae'r **Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad** bellach wedi'i sefydlu o fewn yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Ei phrif swyddogaethau yw hyrwyddo eiriolaeth, ystyried modelau ar gyfer datblygu a chomisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth a Chyngor Cymru gyfan, sefydlu Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol a chyflwyno adroddiadau ar safonau eiriolaeth a chanlyniadau ledled Cymru wrth fonitro trefniadau cyffredinol ar gyfer eiriolaeth. Ar hyn o bryd mae'r uned yn gweithio ar ganllawiau ar gyfer pob parti perthnasol ar y *Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru*. Er gwaethaf anawsterau cynharach o ran recriwtio a throsiant staff, mae'r uned wedi staffio'n llawn ers mis Ionawr 2009. Lleolir yr uned yn Llanelwy a bydd yn symud i swyddfa newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghyffordd Llandudno yn 2010.

4.2 Ar hyn o bryd mae'r Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad wrthi'n sefydlu **Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol** a fydd yn cynnwys tri aelod bwrdd sy'n oedolion, pedwar aelod sy'n blant a phobl ifanc a Chadeirydd. Bydd gan gynrychiolydd o swyddfa'r Comisiynydd Plant statws arsyllwr unwaith y sefydlir y bwrdd. Mae'r aelodau bwrdd sy'n oedolion yn cael eu recriwtio drwy ddefnyddio'r broses penodiadau cyhoeddus yn dilyn hysbysebion yn y wasg genedlaethol. Mae plant a phobl ifanc wedi cymryd rhan yn y broses recriwtio a'r panel dethol ar gyfer aelodau'r bwrdd sy'n oedolion. Cafodd y plant a'r bobl ifanc eu recriwtio drwy ymgyrch recriwtio ar wahân a ddefnyddiodd gysylltiadau â rhwydweithiau plant a phobl ifanc perthnasol.

4.3 Bydd gan y Bwrdd rôl gynghori a bydd yn cynghori Gweinidogion Cymru ar y ffordd orau o gyflwyno'r model ar gyfer darparu Gwasanaethau Eiriolaeth. Bydd y Bwrdd hefyd yn cynghori Gweinidogion Cymru ar y trefniadau comisiynu ar gyfer eiriolaeth ar lefel genedlaethol a lleol a chyhoeddi barn ar drefniadau a wnaed gan aelodau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i gomisiynu a diogelu'r dasg o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth ar lefel leol a/neu ranbarthol. Bydd y Bwrdd llawn ar waith erbyn dechrau mis Mai 2009 a bydd yn cyfarfod am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2009.

4.4 ***Eiriolaeth gyffredinol*** - Mae'r Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad wedi cynnal arolwg o anghenion a dewisiadau plant a phobl ifanc o ran y ffyrdd y byddai'n well ganddynt gael gwasanethau eiriolaeth. Dadansoddir y wybodaeth hon i sicrhau mai'r dewisiadau a gyflwynir i'r Bwrdd i ymgymryd â darparu gwasanaethau eiriolaeth yw'r rhai a fydd fwyaf effeithiol. Wrth ehangu eiriolaeth i fod ar gael i bob Plentyn a Pherson Ifanc yng Nghymru bydd angen cefnogi trefniadau lleol a rhannu arfer da. Mae angen hefyd i ategu adnoddau cenedlaethol a diogelu cysylltiadau cryf â gwasanaethau help a chymorth

presennol megis Childline, llinell gymorth yr NSPCC, prosiect CLIC (Prosiect Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol ar gyfer Pobl Ifanc 11- 25 oed). Mae'r Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad yn dadansoddi'r angen, barn a dewisiadau wrth baratoi i'r Bwrdd ei hystyried yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Bydd penderfyniadau'r Bwrdd yn hanfodol wrth lunio'r fanyleb ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth arloesol ac effeithiol sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru yn yr 21ain ganrif.

Gallai llawer o'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar hyn o bryd fod yn eiriolwyr, a dylent fod, ond yn aml mae diffyg dealltwriaeth am rôl eiriolwr. Mae hyn mor wir ymhlith oedolion ag ydyw ymhlith plant a phobl ifanc. Mae strategaeth gyfathrebu'n cael ei pharatoi i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ac egluro eiriolaeth a rolau eiriolwyr. Bydd angen gwneud hyn ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r Uned wedi datblygu model weledol er mwyn helpu i egluro'r mathau amrywiol o eiriolaeth a'r hyn y mae eiriolwyr yn ei wneud - gweler atodiad 1. Mae'r model yn rhoi crynodeb o rôl eiriolwr mewn ffurf y gellir ei deall yn hawdd, ac yn nodi pedair ffordd y gellir cyflwyno eiriolaeth. Bydd y strategaeth gyfathrebu sy'n cael ei datblygu yn parhau â'r gwaith hwn. Bydd y Bwrdd hefyd yn cynghori ar ddatblygu prosesau cyfathrebu.

***4.6*** ***Gwasanaeth Eirioli Arbenigol Integredig*** – Mae'r *Model ar gyfer Darparu Gwasanaeth Eiriolaeth* newydd yn gosod gofyniad y daw gwasanaethau sy'n comisiynu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed mewn amgylchiadau penodol ar hyn o bryd ynghyd i gynllunio a chomisiynu gwasanaeth eiriolaeth integredig ar y cyd. Caiff hyn ei hwyluso gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, a anogir i weithio'n rhanbarthol yn unol â ‘Creu’r cysylltiadau’ ac ‘Ar Draws Ffiniau’. Bydd y gwasanaeth integredig yn rhoi un pwynt cyswllt a fydd yn ei wneud yn haws i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n eu cyfeirio ei lywio, ac yn haws ei fonitro ar gyfer cysondeb o ran ansawdd ac effeithiolrwydd. Mae'r canllaw ar gyfer y model newydd wedi'i ddatblygu a bydd ar gael yn fuan i ategu proses weithredu effeithiol.

4.7 Rhagwelir y caiff y gofynion eu hatgyfnerthu drwy ddeddfwriaeth a rheoliadau cyflenwol yn 2010. Mae'r broses o gyflwyno'r gweithdrefnau statudol wedi cael ei gohirio oherwydd aildrefnu'r GIG. Cyflwynir rheoliadau cyn gynted ag y bydd cyngor cyfreithiol yn caniatáu gosod dyletswyddau ar y cyrff olynol i'r BILlau presennol. Bydd yr Uned yn gweithio gydag adrannau amrywiol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn ystod y cyfnod pontio er mwyn sicrhau bod y paratoadau angenrheidiol ar waith ac er mwyn darparu canllawiau statudol a'r dulliau cyflenwol i gynorthwyo yn y gwaith o gomisiynu ar y cyd, cyfuno cyllidebau, cynllunio a chaffael gwasanaethau eiriolaeth integredig.

4.8 Mae nifer o newidiadau sy'n effeithio ar ddatblygiad y gwasanaeth eiriolaeth integredig:

- Ad-drefnu'r GIG a sefydlu saith Bwrdd Iechyd Lleol newydd o ganlyniad i hynny, a'r bwriad o gryfhau rôl y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru fel llais y claf. Mae Cynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru eisoes yn darparu gwasanaeth eiriolaeth i unrhyw un sydd am wneud cwyn. Fel rhan o'r newidiadau eraill a gynigir i rôl y Cynghorau Iechyd Cymuned, byddant yn parhau i ddarparu gwasanaethau cwynion eiriolaeth i oedolion sydd am

wneud cwyn am wasanaeth y GIG. Bydd angen i drefniadau ar gyfer eiriolaeth plant a phobl ifanc gael eu gwneud drwy'r Model ar gyfer Darparu Eiriolaeth newydd drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Y bwriad yw cyhoeddi Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol i'w gwneud yn ofynnol iddynt wneud y trefniadau hyn.

- Ym maes addysg, bydd y Mesur Addysg (Cymru) arfaethedig yn ymestyn hawliau apeliadau AAA a Gwahaniaethu ar sail Anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn ymestyn hawliau mewn ffordd arloesol. Ar hyn o bryd, dim ond y rhai a ddosberthir fel rhieni a all apelio i'r tribiwnlys. Mae'r Mesur yn cynnig gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i wneud trefniadau i blant a phobl ifanc (neu eu "Ffrindiau Achos", hynny yw pobl yn cyflwyno apeliadau/hawliadau ar eu rhan) allu defnyddio gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Arbenigol i'w cynorthwyo drwy'r broses, neu eu cynrychioli yn ei hystod. Cyn cyflwyno hyn yn llawn, bwriedir dechrau cam peilot a dadansoddi yn hydref 2010, a bydd y Model Eiriolaeth wedi'i sefydlu'n gadarn erbyn hynny. Caiff safonau gofynnol eu datblygu cyn y cam peilot a'u mireinio ymhellach yn ystod y cam hwnnw.

4.9 ***Datblygu hyfforddiant a'r cymhwyster eiriolaeth arbenigol ar gyfer plant* -** Caiff rhaglen hyfforddi a chymhwyster ar gyfer eiriolwyr ar gydnabyddir yn genedlaethol, a ategir gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, ei datblygu ar hyn o bryd, a ariennir ar y cyd gan Wasanaeth Cymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Cenedlaethol ac mae cynllun prosiect ar waith. Bydd hyn yn sicrhau ansawdd, cysondeb a hygrededd eiriolwyr, yn benodol eiriolwyr proffesiynol annibynnol a allai gefnogi plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

## 5. Casgliad

5. 1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i weithredu a darparu'r Model ar gyfer Darparu Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc newydd, a chredwn y bydd y camau gweithredu o fewn y Model yn cefnogi plant a phobl ifanc yn sylweddol er mwyn i'w barn a'u lleisiau gael eu clywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

*Atodiad 1 - MODEL EIRIOLAETH*

*Mae llawer o wahanol ffyrdd o ddarparu eiriolaeth, ac mae llawer o bobl sy'n gallu bod yn eiriolwyr. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng Eiriolaeth Anffurfiol, Eiriolaeth Ffurfiol ac Eiriolaeth Annibynnol/Broffesiynol. Mae'r diagram canlynol yn dangos y gwahaniaethau hyn;*

**Mae Eiriolwr…**

**Yn eich cefnogi er mwyn sicrhau y gallwch ddweud eich dweud.**

**Yn gwrando arnoch chi**

**Yn rhoi hyder I chi**

**Yn rhoi gwybodaeth i chi**

**Yn rhoi help Ymarferol i chi**

**Yn trafod ar eich rhan**

**Eiriolaeth Ffurfiol**

Mae'n well gan rai plant a phobl ifanc, neu grwpiau o blant a phobl ifanc, ofyn am help i gael gafael ar eu Hawliau drwy weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Fel arfer maent yn bobl gaiff eu talu i helpu ac eirioli ar ran plant a phobl ifanc h.y. gweithwyr ieuenctid, athrawon, nyrsys ysgol, gweithwyr chwarae, gweithwyr gofal ac ati. Maent yn eich helpu i gael gwybodaeth, dysgu am wasanaethau, gwneud penderfyniadau, dod o hyd i ble i gael rhagor o help os oes ei angen arnoch, a sicrhau fod gennych lais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch.

**Eiriolaeth Cyfoedion**

Weithiau byddai'n well gan blant a phobl ifanc fynd at blant a phobl ifanc eraill i gael help a chymorth i atal, dechrau neu newid rhywbeth. Mae rhai plant a phobl ifanc yn fwy hyderus nag eraill a byddent yn gyfforddus yn lleisio eich barn chi i eraill. Mewn rhai achosion, mae plant a phobl ifanc wedi cael hyfforddiant i fod yn eiriolwr cyfoedion ac maent yn rhan o gynllun neu brosiect

**Eiriolaeth anffurfiol**.

Caiff y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc afael ar eu Hawliau gan rieni, gofalwyr, aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion, rhieni ffrindiau ac ati. Gallent eich helpu i gyfleu eich safbwynt, eich helpu i ddweud sut rydych yn teimlo ac i wneud penderfyniadau. Maent yn eiriolwyr di-dâl.

**Eiriolaeth Annibynnol/Proffesiynol**

Pan fydd plant a phobl ifanc yn teimlo na allant gael gafael ar eu Hawliau, neu cânt eu hatal rhag gwneud, gallent gael gafael ar eiriolaeth annibynnol/proffesiynol. Fel arfer mae hyn yn cynnwys pobl wedi'u hyfforddi sydd sy'n gymwys i'ch helpu i leisio eich barn mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio arnoch. Gallant ymdrin â materion penodol am nad ydych yn fodlon â'r sefyllfa bresennol ac rydych yn teimlo na wrandewir arnoch. Byddant yn dod gyda chi i gyfarfodydd ac yn sicrhau eich bod yn deall yr hyn sy'n digwydd ar bob amser ac y caiff eich barn ei hystyried. Nid ydynt yn rhoi cyngor, ond maent yn eich helpu i fynegi eich barn, waeth beth yw eu barn hwy.

**Gallai Eiriolaeth Gynnwys**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Egluro** | **Rhoi Gwybodaeth** | **Llywio** | **Gwrando** | **Cefnogi** | **Datrys** | **Cynrychioli** | **Grymuso** | **Cynghori** | **Negodi** |

DOGFEN 2